

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Conwy

Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Conwy i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Roedd Conwy wedi cyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, a rhannol gyflawni 1.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Conwy wedi cyflawni 9 yn llawn, ac 1 yn rhannol.

Mae Conwy wedi parhau i berfformio'n gryf ym mlwyddyn gyntaf y chweched fframwaith, er bod effaith pwysau ariannol ar y gwasanaeth yn dechrau dod i'r amlwg. Mae nifer y staff cyffredinol wedi gostwng o dan y lefel darged, ac mae rhai meysydd lle ceir gostyngiad yn y ffigyrau defnydd. Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i gyfeiriad strategol y gwasanaeth mewn amgylchedd ariannol mwy heriol; nodwyd eisoes gynlluniau i adolygu'r strwythur staffio, ac archwilio'r posibilrwydd o weithio mwy mewn partneriaeth a datblygu canolfannau cymunedol. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn rhagweld y bydd toriadau yn y gyllideb yn effeithio ymhellach ar ei allu i fodloni gofynion y fframwaith, ac felly safon y gwasanaethau i'w gymunedau; byddai hyn yn siomedig o ystyried hanes cryf yr awdurdod a rhagoriaeth ei wasanaethau presennol.

- Mae pob man gwasanaeth yn cynnig ystod gyflawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol ac ar gyfer iechyd a lles. Cyflwynodd Conwy bedair astudiaeth achos sy'n dangos effaith gadarnhaol y gwasanaeth.
- Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddi ffurfiol wedi mwy na dyblu, er y cafwyd gostyngiad yn y nifer sy'n cael cymorth drwy hyfforddiant anffurfiol.
- Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau/gweithgareddau a drefnwyd gan y llyfrgell wedi gostwng 25% ers lefelau 2016-17, ac erbyn hyn maent ymhlith yr isaf yng Nghymru.
- Mae defnydd fel arall wedi cynyddu mewn rhai meysydd ond wedi gostwng mewn rhai eraill, gyda nifer yr ymweliadau corfforol fesul pen y boblogaeth bellach yn llawer is na lefel y canolrif, a gostyngiad parhaus yn nifer y benthyciadau llyfrau, er bod perfformiad yn hyn o beth yn dal yn gymharol gryf.
- Mae Conwy yn parhau i gyflawni'r holl ddangosyddion perfformiad ar gyfer derbyniadau stoc a gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg, er gwaethaf gostyngiad bychan yn y gwariant ar ddeunyddiau.
- Mae lefelau'r staff cyffredinol wedi gostwng, yn unol â chyfyngiadau i'r gyllideb, ac maent bellach yn is na'r lefel darged, er eu bod o gymharu yn parhau ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Bwriada'r gwasanaeth adolygu ei strwythur staffio yn sgil y gostyngiad mewn cyllid.
- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng ychydig ers 2016-17, er bod buddsoddiad yn y gwasanaeth yn parhau i fod yn uwch na lefel y canolrif.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac yn Adran 3 ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

2.1 Hawliau craidd

Mae Conwy yn cyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac yn rhannol gyflawni hawl graidd 12. Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yng ngham olaf gweithredu ei Strategaeth Moderneiddio Llyfrgelloedd (a gytunwyd yn 2011), ond mae angen ystyried adolygu a diweddarau gwybodaeth am y strategaeth ehangach ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn agored i bawb, ac yn dadansoddi proffil dinasyddion/cwsmeriaid lleol yn fanwl i fod yn sail i ddatblygiad y gwasanaeth, a sicrhau ei bod yn diwallu anghenion pob rhan o'r gymuned. Mae'n gweithio gyda phartneriaid ar draws y Gogledd, yn arloeswr yng nghynllun LINC y Gogledd, ac yn aelod o'r system rheoli llyfrgell (LMS) ar gyfer Cymru gyfan. Mae cyllideb marchnata a chynllun cyfathrebu ar waith, gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo digwyddiadau penodol / rhannu newyddion; mae staff hefyd yn ymgysylltu â'r gymuned mewn digwyddiadau allgymorth i godi ymwybyddiaeth am wasanaethau.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Conwy yn cyflawni 9 yn llawn, ac un yn rhannol.

Dangosydd perfformiad	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad manau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Cyflawni'n llawn
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	✓	
neu Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	✓	
DA 10 Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	✓	

<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	x	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhynggrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	✓	
iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Mymryn o newid a geir yma ers blwyddyn olaf y pumed fframwaith, pan oedd Dangosydd Ansawdd 13 wedi'i gyflawni'n llawn.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Mae Conwy eto i gynnal ei arolygon defnyddwyr ac maent ar y gweill ar gyfer hydref 2018.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth				
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	<i>amherthnasol</i>	73%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	<i>amherthnasol</i>	38%	90%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	77%	16/17	75%	98% 100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Conwy bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Llythrennedd Digidol – rôl y llyfrgell yn cefnogi un wraig oedranus i ddefnyddio ei iPad, gan feithrin ei hyder i ddefnyddio technoleg, a'i galluogi i gyfathrebu â theulu dramor, a chael mynediad at apiau adloniant. Mae hi'n gwybod y gall ddychwelyd i'r llyfrgell i gael cymorth eto os oes angen hynny arni.
- Rhaglenni Gwyliau'r Haf – roedd y llyfrgell wedi gweithio mewn partneriaeth ag ysgol leol i gefnogi grŵp targed o blant i gymryd rhan yn Her Ddarllen yr Haf. Roedd yr ymweliadau wythnosol â'r llyfrgell wedi ennyn diddordeb y plant, ac roedd eu

brwdfrydedd wedi ymestyn i gymryd rhan yng Nghlwb Gwyliau'r Ysgol. Roedd pob un o'r 33 o blant wedi cwblhau'r Her, gan gael eu hannog i ddatblygu cariad at ddarllen, a gwella eu sgiliau llythrennedd.

- Prentisiaethau Modern – profiad dau brentis wrth weithio gyda'r gwasanaeth llyfrgell a gweithio at gymwysterau LAIS; gwella eu hyder, eu sgiliau cymdeithasol a gofal cwsmeriaid, yn ogystal â dod i ddeall gwaith llyfrgell. Llwyddodd y ddau brentis i gael cyflogaeth barhaol gyda'r gwasanaeth llyfrgell.
- Arddangosfa Gelf – oedolyn sydd â gofynion dysgu ychwanegol yn mynychu dosbarthiadau llythrennedd yn y llyfrgell, gan ddefnyddio ei baentiadau ar gyfer ymarfer siarad / gwrando, ac fe'i gwahoddwyd i gynnal arddangosfa yn y llyfrgell. Mae'r arddangosfa wedi helpu gyda'i hyder a'i sgiliau llythrennedd, ac mae casgliadau'r llyfrgell yn ysbrydoli ei gelf.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Conwy ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
DA 1 Gwneud gwahaniaeth						
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd:	<i>amherthnasol</i>		24%	83%	94%	83%
c) iechyd a lles	<i>amherthnasol</i>		33%	65%	95%	76%
d) lle diogel a chroesawgar	<i>amherthnasol</i>		90%	98%	100%	98%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid						
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	<i>amherthnasol</i>		88%	91%	98%	89%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	<i>amherthnasol</i>		93%	99%	100%	98%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	<i>amherthnasol</i>		74%	86%	94%	
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	<i>amherthnasol</i>		93%	97%	99%	97%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	<i>amherthnasol</i>		8.5	9.1	9.2	8.7
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr fesul pen	31	13/22	10	32	238	15
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	278	8/22	15	199	473	305
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth						
	177	18/22	82	228	684	235
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	3,270	17/22	2,501	4,047	7,014	3,596
b) rhith-ymweliadau fesul pen	1,270	5/22	243	866	2,211	1,173
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	165	8/22	100	154	229	151

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen *	185	6/22	4	68	663	
DA 11 Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul pen ^	11	6/22	5	9	14	
c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	35%	6/22	14%	27%	67%	43%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	68	5/21	3	31	196	58
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	1,806	8/21	40	1,346	11,939	1,313
DA 14 Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£14,128	7/21	£7,047	£11,915	£17,771	£14,958
b) % ar staff	68%	6/21	44%	63%	75%	66%
% ar adnoddau gwybodaeth	15%	6/21	4%	13%	25%	15%
% ar offer ac adeiladau	2%	20/21	0%	4%	20%	1%
% ar gostau gweithredol eraill;	15%	12/21	0%	18%	37%	17%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£1,168	6/20	£0	£338	£17,432	£1,284
DA 15 Cost net am bob ymweliad	£2.41	1/21	£1.24	£1.82	£2.41	£3.00
DA 16 Oriau agor#						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.48%	17/21	0.00%	0.02%	1.28%	0.00%
b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.05%	9/20	0.00%	0.35%	11.24%	0.03%

* fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg

^ am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl

Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Nid yw Conwy wedi cwblhau ei arolygon defnyddwyr eto, a'r rhain wedi'u cynllunio ar gyfer hydref 2018. Mae'r holl lyfrgelloedd sefydlog yn cynnig yr ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol, gydag iechyd a lles hefyd yn cael cefnogaeth dda a'r holl staff wedi'u hyfforddi yn gyfeillion dementia. Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant defnyddwyr a drefnwyd ymlaen llaw wedi mwy na dyblu yn 2017-18, gyda'r perfformiad fesul pen y boblogaeth bellach fymryn yn is na'r canolrif ar gyfer Cymru, er bod canran y rhai a fynychodd a deimlai eu bod wedi cael cymorth i gyflawni eu hamcanion wedi gostwng o 94% yn 2016-17 i 77%. Mae'r nifer sy'n cael cymorth trwy hyfforddiant anffurfiol hefyd wedi gostwng, er bod perfformiad yma yn parhau i fod yn uwch na lefel y canolrif.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Conwy yn parhau i gyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, ac mae ganddo 10 cangen (pump ohonynt wedi'u cefnogi gan y gymuned) oll yn agor am 10 awr neu ragor bob wythnos. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau / gweithgareddau wedi'u trefnu gan y llyfrgell fodd bynnag wedi gostwng 25% ers lefelau 2016-17, er bod y gwasanaeth yn parhau i gynnal gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr

sydd â gofynion arbennig ym mhob un o'i fannau gwasanaeth. Mae'r defnydd mewn meysydd eraill hefyd wedi gostwng, gan gynnwys ymweliadau corfforol ac aelodaeth llyfrgell, sydd o dan lefel y canolrif, a benthyciadau llyfrau, er o gymharu mae'r perfformiad yn dal yn gymharol gryf. Mewn gwrthgyferbyniad mae nifer y benthycwyr gweithredol a'r lawrlwythiadau electronig wedi cynyddu, megis hefyd nifer yr ymweliadau i wefan y gwasanaeth, er mai'r duedd gyffredinol mewn mannau eraill yw bod y defnydd ar i lawr. Mae'n bosibl fod gweithio i ddatblygu catalog y llyfrgell a chynyddu rhwyddineb ei ddefnyddio wedi helpu i ddylanwadu ar lefelau uwch yr ymweliadau ar-lein.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r holl ddangosyddion perfformiad yn ymwneud â derbyniadau / gwariant stoc, ynghyd â'r gwariant cyfrannol ar adnoddau Cymraeg. Cafwyd gostyngiad bychan yn y gwariant ar ddeunyddiau, ond mae'r buddsoddi mewn adnoddau plant a deunyddiau Cymraeg yn parhau i fod yn uchel. Mae perfformiad mewn perthynas â chyflenwi ceisiadau yn uwch na lefelau'r targed, er nad yw'r ffigyrau hyn ond yn cynnwys ceisiadau sydd wedi'u cyflenwi o fewn yr awdurdod ac nid rhai wedi'u cyflawni trwy drefniadau i rannu stoc ar draws chwe awdurdod y Gogledd. Cadwyd y ddarpariaeth cyfrifiaduron ar lefelau 2016-17, er bod lefelau'r defnydd arnynt yn gostwng – tuedd a welir yn y rhan fwyaf o'r gwasanaethau eraill hefyd wrth i gwsmeriaid ddefnyddio eu dyfeisiau eu hunain a'r cyfleusterau Wi-Fi sydd ar gael – bydd y gwasanaeth yn addasu ei strategaeth adnewyddu cyfrifiaduron yn y dyfodol.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staff cyffredinol wedi gostwng, ac erbyn hyn maent yn is na lefel y targed fesul pen y boblogaeth, er eu bod o gymharu yn dal ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Mae'r cwmp hwn yn y perfformiad yn adlewyrchu effaith arbedion ariannol ar y gwasanaeth, ac mae cynlluniau ar y gweill i adolygu'r strwythur staffio yn sgil y gostyngiadau mewn cyllid. Fodd bynnag, mae lefelau staff proffesiynol wedi'u cynnal, ac mae'r targed yn hyn o beth yn dal i gael ei gyflawni. Mae yma arweinyddiaeth â chymwysterau, ac mae'r gwasanaeth wedi gwella ei fuddsoddiad mewn hyfforddiant staff / datblygiad proffesiynol ar lefel briodol. Mae nifer y gwirfoddolwyr wedi codi, gyda 68 o unigolion yn cyfrannu oddeutu 26 awr i'r gwasanaeth. Mae cydlynnydd gwirfoddol yn goruchwylio ac yn cefnogi llyfrgelloedd cymunedol y gwasanaeth. Cefnoga'r gwasanaeth hefyd brofiad gwaith a lleoliadau cynllun Dug Caeredin.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng ychydig ers 2016-17, er bod buddsoddiad yn y gwasanaeth yn parhau i fod yn uwch na lefel y canolrif. Cadwyd cyfanswm yr oriau agor blynyddol, gyda'r targed yn hyn o beth yn dal i gael ei gyflawni.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Sonia Conwy am ei gyfraniadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r strategaeth Ffyniant i Bawb, ac mewn perthynas â blaenoriaethau corfforaethol a chynlluniau llesiant a lleol. Mae rôl y llyfrgell wrth gefnogi agendâu tlodi, cynhwysiant digidol ac iechyd a lles, a datblygu a llythrennedd sgiliau oll yn cael sylw gan Conwy.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol, amlinellodd Conwy y broses o gyflwyno ei strategaeth ar gyfer Moderneiddio Gwasanaeth Llyfrgelloedd Conwy, gyda'r elfen olaf, Canolfan Diwylliant Conwy, i agor yn hydref 2019. Mae gwaith hefyd i fod i gychwyn ar gyflawni'r ymrwymiad corfforaethol i ddatblygu llyfrgelloedd yn ganolfannau cymunedol. Mae cynlluniau eraill yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector i ddarparu gwell amrywiaeth o wasanaethau allgymorth. Fodd bynnag, nodir yr heriau yn sgil y pwysau ariannol ar y gwasanaeth.

6 Casgliad

Mae Conwy wedi parhau i berfformio'n gryf ym mlwyddyn gyntaf y chweched fframwaith, er bod effaith pwysau ariannol ar y gwasanaeth yn dechrau dod i'r amlwg. Mae nifer y staff cyffredinol wedi gostwng o dan y lefel darged, ac mae rhai meysydd lle ceir gostyngiad yn y ffigyrau defnydd. Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i gyfeiriad strategol y gwasanaeth mewn amgylchedd ariannol mwy heriol; nodwyd eisoes gynlluniau i adolygu'r strwythur staffio, ac archwilio'r posibilrwydd o weithio mwy mewn partneriaeth a datblygu canolfannau cymunedol. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn rhagweld y bydd toriadau yn y gyllideb yn effeithio ymhellach ar ei allu i fodloni gofynion y fframwaith, ac felly safon y gwasanaethau i'w gymunedau; byddai hyn yn siomedig o ystyried hanes cryf yr awdurdod a rhagoriaeth ei wasanaethau presennol.